# <u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 26.3.26</u>

## Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh

**19:935: Presennol:** Bedwyr Fychan (Cadeirydd), William Owen, Deryck Lewis, Paul Hughes, Rhodri Wigley, Gareth Owen, Sandra Evans (Clerc)

**19:936: Ymddiheuriadau**, Huw Williams, Iwan Pughe Jones, Glyn Jones, Dafydd Evans, Gwen Lloyd, Aled Griffiths, Gwenfair Rhys-Davies, Gareth Wyn Jones, Elwyn Vaughan

**19:937: Materion Personol: -** Roedd yn ddrwg gan y Cyngor glywed am golled diweddar, Gwilym Davies, Esgairwian. Gwelir ei golled yn gymydog ac yn gyfaill. Bu hefyd yn gyn-gynghorydd Cyngor Cymuned Glantwymyn. Mynegwyd cydymdeimlad â'r teulu i gyd.

**19:938: Datganiadau o ddiddordeb**: Paul Hughes – torri gwair

**19:939: Cyflwyno a derbyn cofnodion: 26.2.26**.

Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:940: Materion yn codi o'r cofnodion:**

**19:941: Adroddiad y Clerc:** Mae Cyngor Sir Powys wedi cydnabod y materion a adroddwyd y mis diwethaf. Cysylltir â Chyngor Sir Powys i gael dyddiad penodol ar gyfer diffib Tal-y-wern er mwyn gwneud y trefniadau priodol ymlaen llaw.

**19:942: Cynllunio: -** Dim

**19:943: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- WR Partners 237275 £129.60 Cyflogres Rhag 25 - Chwefror 26.
- SARPA Aelodaeth £15.00
- Cyflog y clerc (Chwefror mis 11) £264.00
- Un llais Cymru – aelodaeth £297.00

Cynigiwyd y dylid talu'r uchod gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Deryk Lewis.

**19:944: Gohebiaeth**: (i) Cafwyd llythyr gan Mr. Stephen Tudor yn nodi bod "Dogfennau yn rhestri enwau'r rhai oedd a'r hawl i droi defaid i bori'r comin yng Nghwmllinau a Chomins Coch oddeutu'r flwyddyn 1968." Wedi cael eu trosglwyddo i Adran Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a leolir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi y bydd y dogfennau'n cael eu cadw a'u defnyddio.

(ii) Llythyr gan Mrs. Foulkes yn gofyn am ddiweddariad am ddiffib Abercegir. Mae'r diffib yn parhau ar wal Rhiwlas, Abercegir. Gan nad oedd wedi'i gofrestru'r haf diwethaf, i osgoi bod gwasanaeth Diffibs Cymru yn ei ddatgomisiynu a selio'r blwch, bu'n rhaid i'r Cyngor Cymuned ei gofrestru (yn enw Bedwyr ar ran CCG) i sicrhau ei fod yn dal ar gael. Mae padiau newydd a blwch newydd gan y Cyngor ar ei gyfer. Mae perchennog newydd y tŷ'n barod iawn i'r diffib aros ar wal ei thŷ. Mae'r Cyngor yn aros am wybodaeth gan y gwasanaeth diffibs am faint o drydan y bydd yn ei ddefnyddio cyn gosod y blwch newydd.

Ceir manylion am leoliadau diffibs dan ofal y Cyngor a manylion am sut i'w cyrchu ar gael yn y Blewyn Glas.

**19:945:** Penodi torrwr gwair mynwentydd Llanwrin a Darowen Yn dilyn hysbysiad cyhoeddus yn y Blewyn Glas penodwyd Paul Hughes i barhau gyda'r gwaith. Cytunwyd â'r penodiad yn unfrydol a diolchwyd i Paul am ei waith cywrain yn y gorffennol.

**19:946:** Capel MC Cemaes – Cynhaliwyd cyfarfod safle ym mynwent Cemaes yn ddiweddar i drafod y posibiliadau. Cafwyd llythyr yn dilyn hynny gan Mr. Edward Breese yn nodi manylion. Bydd y Cyngor yn ceisio gwybodaeth bellach gan Mr. Breese cyn gwneud penderfyniad.

**19:947:** Diweddariad Cemaes: Mae'r Cyngor yn disgwyl diweddariad gan Adam Christie-Rees (Cefnffyrdd) sy'n cysylltu â Llywodraeth Cymru. Bydd CC Glantwymyn yn cysylltu hefyd â Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad ac yn trefnu cyfarfod safle bryd hynny.

**19:948: Adroddiadau'r Cynghorwyr** – Elwyn Vaughan (neges yn ei absenoldeb) Mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo cynllun busnes Hyddgen ac mae'r prosiect ar Sell2Wales ar gyfer tendrau gan ddatblygwyr.

Mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo cais cyfalaf Cylch Meithrin Glantwymyn.

**19:949: Ffyrdd a Phontydd:**

- Adroddir eto bod angen sweeper i lanhau ffordd Llanwrin hyd y fffordd gefn o bont Mathafarn i Aberangell achos cyflwr peryglus y ffordd. Nodwyd bod traffig cynyddol yn defnyddio'r ffordd er gyfleustra ers y bont newydd ger Machynlleth.
- Adroddir eto - Glantwymyn ger Llys Dyfi /Bryn Dyfi - llyncdwll sy'n berygl i'r cyhoedd.
- Adroddir eto am y lamp stryd gyfagos nad yw'n gweithio sy'n ychwanegu at y perygl.SY20 8JZ
- Problem ger Mallwyd bod drymiau tar wedi'u gadael ar ôl trwsio'r ffordd. Adroddir hyn i Gefnffyrdd. Diolch i Richard Arwyn Williams am ymateb prydlon iawn i gwyn gan y Cyngor am sbwriel arall a adawyd yno. Nodwyd mai gwael oedd safon y gwaith ar y ffordd.
- Pothole ger Cilhaul, Tal-y-wern (intrigues.playful.shady)
- Manhole wedi codi wrth adael Tal-y-wern am Felinbyrhedyn. (serves.dives.refusals) Perygl i yrwyr a cherddwyr.
- Arwydd Pont Rhyd-y-gwial wedi diflannu sy'n drueni am ei bod yn eitem hanesyddol yn cofnodi codi'r bont yn 1969. (awoke.skies.tube.)

**19:950: Unrhyw fater arall – Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 20.53

Cynhelir y cyfarfod nesaf .30.4.26

**Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 26.3.26**

Datgan diddordeb - Paul Hughes – Canolfan Glantwymyn

1. **Ganolfan Glantwymyn -** Cais am gymorth i brynu cadeiriau. Penderfynwyd cyfrannu £2,600, gan gydnabod gyda diolch gwerth y ganolfan i'r gymuned a'r sefydliadau niferus sy'n ei defnyddio'n gyson.
   Cynigiwyd hyn gan William Owen ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen
2. **Cytundeb EDF** – Gohiriwyd y drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.
   Daeth y cyfarfod i ben am 8.55